

# HYSBYSIAD PREIFATRWYDD MYFYRWYR

Mae'r dudalen hon yn cynnig gwybodaeth ynghylch y defnydd o 'wybodaeth bersonol' yn ystod y cyfnod ichi ddechrau dangos diddordeb mewn dod yn fyfyrwr ym Mhrifysgol Glyndŵr, yn ystod eich cyfnod o fod wedi cofrestru fel myfyrwr ym Mhrifysgol Glyndŵr, ac wedi ichi raddio.

## Beth yw 'gwybodaeth bersonol'?

Mae 'gwybodaeth bersonol' yn golygu unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â chi neu sy'n eich adnabod chi fel unigolyn.

## Sut ydym ni'n trin data personol myfyrwyr cyfredol

O dan Ddeddf Diogelu Data 2018, mae Prifysgol Glyndŵr yn Rheolydd Data ac rydym felly yn gyfrifol yn gyfreithiol am y data personol rydym yn ei gasglu a'i gadw. Un o'n cyfrifoldebau yw rhoi gwybod ichi am y ffyrdd gwahanol yr ydym yn casglu ac yn defnyddio eich data personol. Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn ddatganiad sy'n rhoi manylion ynghylch y defnyddiau hyn.

## O ble mae'r Brifysgol yn cael eich data personol?

Rydym yn casglu data personol amdanoch o'r ffynonellau canlynol:

- gennych chi pan fyddwch yn nodi eich manylion cyswllt ar gyfer gweithgareddau diwrnod agored neu pan fyddwch yn cofrestru fel myfyrwr gyda ni;
- gan ffynonellau trydydd parti (e.e. UCAS, sefydliadau eraill sy'n ymwneud â rhaglenni ar y cyd neu'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr). Pan fyddwn yn casglu eich data personol gan ffynonellau trydydd parti, byddwn yn sicrhau bod gan y trydydd parti'r awdurdod cyfreithiol i gynnig eich data personol inni.

## Pwy fydd yn prosesu fy ngwybodaeth bersonol?

- Mae'r wybodaeth a gyhoeddir yma yn ymwneud â defnyddio, rhannu a datgelu eich gwybodaeth bersonol gan Brifysgol Glyndŵr

## Pa wybodaeth bersonol fydd yn cael ei phrosesu?

Bydd y Brifysgol yn cadw cofnod o'r manylion rydych wedi eu nodi ar eich ffurflen gais, unrhyw ddogfennau ategol a ofynnir amdanynt fel rhan o'r broses dderbyn a manylion ychwanegol sydd wedi eu rhoi gan unrhyw eirida ac sydd wedi eu cofnodi wedi unrhyw broses gyfweld. Byddwn hefyd yn cynnal cofnodion ynghylch eich astudiaethau ym Mhrifysgol Glyndŵr, ac ynghylch eich defnydd o'r gwasanaethau a'r cyfleusterau academiaidd, a'r rhai nad ydynt yn academiaidd, rydym yn eu cynnig. Bydd y wybodaeth bersonol hon yn cynnwys gwybodaeth/data fel eich enw, cyfeiriad cartref, dyddiad genni, cwrs a astudiwyd, taliadau ffioedd, a gwybodaeth ynghylch eich arholiadau, asesiadau a chanlyniadau.

Mae eich gwybodaeth bersonol yn cael ei chreu, ei storio a'i throsglwyddo'n ddiogel mewn amryw o ffurfiau electronig ac ar bapur, gan gynnwys cronfeydd data sydd yn cael eu rhannu rhwng y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr (fel y brif gronfa ddata cofnodion myfyrwyr, SITS). Mae mynediad at eich gwybodaeth bersonol yn gyfyngedig i'r Brifysgol a thrydydd partiion eraill fel yr amlinellir yn Nhabl 1 a Thabl 2 isod, sydd â diddordeb dilys yn y data er mwyn ymgymryd â'u dyletswyddau cytundebol, ac ni fydd ein defnydd o'ch gwybodaeth bersonol yn eithafol.

Yn ogystal â hyn, fe all y Brifysgol brosesu rhai gwybodaeth sydd wedi ei nodi fel data personol 'sensitif' neu 'gategori arbennig', a fydd angen mesurau diogelu ychwanegol. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth sy'n berthnasol i'ch ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu iechyd/anabledd rydym yn eu defnyddio at ddibenion cynllunio a monitro, neu er mwyn cynnig gofal, help neu addasiadau addas. O ran rhai cyrsiau astudio penodol, efallai bydd gwybodaeth sensitif eraill yn cael ei phrosesu, fel gwybodaeth ynghylch euogfarnau troseddol blaenorol, gweithio gyda phlant neu oedolion sy'n agored i niwed, a'ch cymhwyster i ymarfer mewn rhai proffesiynau rheoledig penodol. Mae mynediad i'ch data personol 'sensitif' a'r gallu i'w rannu yn cael ei reoli'n ofalus iawn. Byddwch fel arfer yn cael manylion pellach ynghylch ein defnydd o ddata felly pan fyddwn yn ei gasglu gennych.

### **Beth yw diben a sail gyfreithiol prosesu'r wybodaeth?**

Bydd y Brifysgol yn prosesu eich gwybodaeth personol at ystod o ddibenion cytundebol, statudol neu bydd y cyhoedd, mae'r rhain yn cael eu hamlinellu yn Nhabl 1 ond yn cynnwys y canlynol:

- I ddarparu a gweinyddu eich addysg, cofnodi manylion eich astudiaethau (gan gynnwys unrhyw leoliadau gyda sefydliadau allanol), pennu/cadarnhau eich llwyddiannau academaidd (e.e. canlyniadau, gwobrau) ac i gynhyrchu tystysgrifau dyfarnu pan fo'n briodol.
- I gyfathrebu â chi er mwyn gofyn am adborth ynghylch eich seremoni Graddio a threfniadau'r seremoni Graddio os yn berthnasol.
- I fonitro, gwerthuso a chefnogi gweithgaredd ymchwil lle bo'n berthnasol (e.e. ar gyfer myfyrwr PhD).
- I weinyddu elfennau ariannol eich perthynas gyda ni ac unrhyw gyllidwyr.
- I ddarparu cyfleusterau ichi (e.e. TG, chwaraeon, llyfrgelloedd, llety, gyrfaoedd).
- I'ch galluogi i gymryd rhan mewn digwyddiadau (e.e. derbyniadau, graddio).
- I gyfathrebu'n effeithiol gyda chi drwy'r post, e-bost a dros y ffôn, gan gynnwys rhannu cylchlythyrau perthnasol.
- I weithredu diogelwch (gan gynnwys camerâu CCTV a chamerâu ar y Corff lle mae prosesu o'r fath yn angenrheidiol ar gyfer y sefydliad), llywodraethu, disgyblu (gan gynnwys llên-ladrad a chamymddwyn academaidd), prosesau a threfniadau cwyno, archwilio a sicrhau ansawdd. Mae rhagor o fanylion ynghylch CCTV a chamerâu ar y corff ar gael ar y dudalen Llywodraethu [Gwybodaeth](#) ar ein gwefan. I gefnogi eich anghenion hyfforddi, meddygol, diogelwch, llesiant a chrefydd.
- I gasglu ystadegau ac ymgymryd ag ymchwil at ddibenion adrodd mewnol a statudol.
- I gyflawni a monitro ein cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb, mewnfudo a diogelwch cyhoeddus.
- I'n galluogi i gysylltu ag eraill mewn argyfwng (byddwn yn cymryd yn ganiataol eich bod wedi gofyn i'r unigolion cyn ichi roi eu manylion cyswllt inni).

Yn gyffredinol, rydym yn prosesu eich data personol ar gyfer gweinyddu yn ystod eich cyfnod fel myfyriwr gyda ni, gan gynnwys y defnydd o'n gwasanaethau fel gwasanaethau llety, recordio darlithoedd, monitro presenoldeb, y Llyfrgell a chyfleusterau chwaraeon.

Rydym yn nodi dibenion prosesu eich data yn fanylach yn nhabl 1 yr Hysbysiad hwn.

## Gyda phwy fydd fy ngwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu?

Fel y disgrifir uchod, mae eich gwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu gyda staff priodol yn y Brifysgol lle bo'n addas gwneud hynny a gydag Undeb y Myfyrwyr. Yn ychwanegol, mae'n cael ei rhannu fel y caniateir neu fel y gofynnir yn gyfreithiol, ar sail ystyriol a chyfrinachol, gydag ystod o sefydliadau allanol, gan gynnwys y canlynol, mae hyn yn cael ei amlinellu yn Nhabl 1 isod, ond yn cynnwys y canlynol:

- Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (gweler datganiad HESA ynghylch sut maent yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol sydd wedi ei gyhoeddi yn <https://www.hesa.ac.uk/about/regulation/dataprotection/notices>).
- Eich cyllidwyr a/neu noddwyr (e.e. fel sy'n berthnasol, y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr, eich cyflogwr, Cyngorau Ymchwil, cyllidwyr unrhyw ddyfarniadau neu wobrau).
- Darparwyr unrhyw leoliadau hyfforddi a dysgu allanol/ar y cyd neu gyfleoedd gwaith maes.
- Cyrff dyfarnu gan gynnwys Prifysgol Cymru, Prifysgol Caer a Pearson ar gyfer cadarnhad o ddyfarniadau a enillwyd ac ar gyfer cynhyrchu tystysgrifau os yn berthnasol.
- Arholwyr ac aseswyr allanol, ac unigolion allanol sy'n ymwneud â phwyllgorau neu brosesu perthnasol y Brifysgol.
- Adrannau Llywodraeth perthnasol (e.e. yr Adran Addysg, y Swyddfa Gartref, y Swyddfa Dramor a Chymanwlad a'r Adran Iechyd).
- Asiantaethau gweithredol perthnasol neu gyrff cyhoeddus anadrannol (e.e. Fisâu a Mewnffudo'r DU, Cyllid a Thollau EM, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch).
- Cyrff Addysg Uwch perthnasol (e.e. Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Swyddfa Myfyrwyr, Ymchwil ac Arloesedd y DU, Gwasanaeth Derbyn Colegau a Phrifysgolion, Swyddfa Mynediad Teg, Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol, y sefydliad(au) sy'n cynnal yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr ac arolygon myfyrwyr ac ymadawyr eraill).
- Unrhyw gyrff rheoleiddiol statudol neu broffesiynol berthnasol (e.e. y Cyngor Meddygol Cyffredinol)
- Yr undeb(au) myfyrwyr a chlybiau a chymdeithasau myfyrwyr perthnasol y Brifysgol, er mwyn hwyluso eich aelodaeth o'r gyrff hynny.
- Awdurdodau lleol (yn benodol, rydym yn rhoi rhestr o fyfyrwyr i Gyngor Bwrdeistref Wrecsam yn flynyddol er mwyn cynorthwyo â gweinyddu eithrio myfyrwyr rhag treth y cyngor).
- Ar adegau, a phan fo'n briodol, yr heddlu ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith eraill.
- Ar adegau, a phan fo'n briodol, archwilwyr.
- Ar adegau, a phan fo'n briodol, cwmnïau atodol y Brifysgol (e.e. Arloesiadau Glyndŵr a Gwyddoniaeth Gogledd Cymru).
- Cwmnïau neu sefydliadau sy'n cynnig gwasanaethau penodol i'r Brifysgol a/neu o leiaf un Coleg, neu ar eu rhan.

Byddwn fel arfer yn cadarnhau manylion eich canlyniadau a'r graddau a ddyfarnwyd i ymholwyr neu sefydliadau allanol, ac yn darparu geirada i drydydd partïon. Byddwn yn gwneud eich canlyniadau arholiad yn gyhoeddus yn unol â'n darpariaethau statudol (gall hyn gynnwys eu postio ar hysbysfyrdau a'u cyhoeddi yn y papur lleol). Bydd eich enw a'r math o radd y dyfarnwyd yn cael ei gyhoeddi yn y rhaglen graddio berthnasol os yn berthnasol.

Ar adegau, bydd y mathau uchod o rannu yn cynnwys trosglwyddo eich gwybodaeth bersonol y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (e.e. i hwyluso eich cyfranogiad mewn ymweliad cyfnewid neu i adrodd i ddarparwr cyllid tramor). Mae trosglwyddiadau fel hyn yn angenrheidiol fel arfer er mwyn bodloni ein dyletswyddau cytundebol gyda chi, ac maent yn cael eu gwneud gyda threfniadau diogelwch priodol ar waith er mwyn sicrhau cyfrinachedd a diogelwch eich gwybodaeth bersonol.

Ar wahân i'r hyn a nodir uchod, ni fyddwn fel arfer yn cyhoeddi neu'n datgelu unrhyw wybodaeth bersonol amdanoch chi i ymholwyr neu sefydliadau allanol eraill oni bai eich bod wedi gofyn inni wneud hynny neu wedi rhoi caniatâd, neu os yw'n hanfodol i'ch budd i ni wneud hynny (e.e. mewn argyfwng).

### **Sut mae fy ngwybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio ar ôl i mi raddio?**

Wedi ichi raddio, bydd cofnod craidd o'ch astudiaethau yn cael ei gadw am gyfnod amhenodol fel bod manylion eich llwyddiannau academiaidd yn cael eu cadarnhau ac ar gyfer ymchwil hanesyddol. Byddwn yn gofyn am eich caniatâd pan fyddwch yn cofrestru ar gyfer y Tîm Marchnata Cyn-fyfyrrwyr tra eich bod yn fyfyrwr fel ein bod yn gallu eich ychwanegu at y gronfa ddata o gyn-fyfyrrwyr. Cyhoeddir datganiad ar gyfer cyn-fyfyrrwyr a chefnogwyr yn nodi sut mae eu gwybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio gan y Brifysgol yn <http://alumni@glyndwr.ac.uk>; byddwch yn cael rhagor o fanylion ynghylch cysylltu â ni wedi ichi adael y Brifysgol yn ystod y cyfnod graddio. Rydym yn gobeithio y byddwch yn parhau i fod yn rhan o'n teulu cyn-fyfyrrwyr.

### **Sut gallaf i gael mynediad at fy ngwybodaeth bersonol?**

Mae gennych hawl i gael mynediad at y wybodaeth bersonol sydd gan y Brifysgol amdanoch chi. Mae rhagor o fanylion wedi eu cyhoeddi <https://glyndwr.ac.uk/cy/llywodraethu-gwybodaeth/ceisiadau-gwrthrych-am-wybodaeth/> neu cysylltwch [dpo@glyndwr.ac.uk](mailto:dpo@glyndwr.ac.uk)

### **Am ba hyd mae fy ngwybodaeth yn cael ei chadw?**

Rydym yn cadw eich gwybodaeth bersonol fel rhan o'ch cofnod myfyriwr trwy gydol eich astudiaethau (ac fe all gael ei defnyddio fel rhan o'ch asesiad ar gyfer unrhyw gais y byddwch yn ei wneud am astudiaethau pellach ym Mhrifysgol Glyndŵr). Mae gwybodaeth ynghylch pa mor hir mae'r Brifysgol yn cadw gwahanol fathau o wybodaeth wedi ei hamlinellu yn Nhabl 2 isod a hefyd wedi ei chyhoeddi yn <https://glyndwr.ac.uk/cy/llywodraethu-gwybodaeth/polisiau/>

### **Gyda phwy y gallaf gysylltu?**

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ynghylch sut mae eich gwybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio, neu os ydych eisiau arfer unrhyw un o'ch hawliau, darllenwch dudalennau gwe diogelu data'r Brifysgol yn <https://glyndwr.ac.uk/cy/llywodraethu-gwybodaeth/egwyddorion-gdpr/neu-anfon-e-bost-dpo@glyndwr.ac.uk> a siaradwch â Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol.

Ein cyfeiriad postio ar gyfer materion diogelu data yw Prifysgol Glyndŵr, Plas Coch, Ffordd yr Wyddgrug, Wreccsam LL11 2AW

Ein rhif cofrestru rheolydd data a ddarperir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw **Z5199192**

### **Sut ydw i'n cyflwyno cwyn?**

Os nad ydych yn hapus gyda'r ffordd mae eich gwybodaeth yn cael ei thrin, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data: [dpo@glyndwr.ac.uk](mailto:dpo@glyndwr.ac.uk). Os ydych yn parhau i fod yn anhapus gyda'r ffordd mae eich gwybodaeth yn cael ei thrin, neu gyda'r ymateb rydych wedi ei gael gennym ni, mae gennych hawl i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn <https://ico.org.uk>.

## A oes newidiadau yn cael eu gwneud i'r tudalen gwe hon?

Cafodd y dudalen we hon ei diweddarau ddiwethaf ym mis Ebrill 2022. Mae'n cael ei hadolygu pan fo agen ac o leiaf unwaith y flwyddyn. Bydd unrhyw newidiadau yn cael eu cyhoeddi yma a byddwch yn cael gwybod trwy'r dudalen gwe hon a/neu drwy e-bost.

## Hysbysiadau a chanllawiau/polisiau ychwanegol

Mae gennym hefyd hysbysiadau, canllawiau a pholisiau ychwanegol gyda rhagor o wybodaeth ddefnyddiol ynghylch y ffordd rydym yn prosesu eich data personol:

## Eich hawliau fel gwrthrych y data

Roeddem yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol i egluro eich hawliau dan GDPR y DU. Mae gennych yr hawl i:

- dynnu eich caniatâd yn ôl os mai dyna yw sail gyfreithiol ein prosesu;
- cael mynediad i'ch data personol;
- cywiro gwallau yn y data personol sydd gennym amdanoch chi;
- cael eich anghofio, hynny yw dileu eich manylion o'r systemau a ddefnyddiwn i brosesu eich data personol;
- cyfyngu ar brosesu eich data mewn ffyrdd penodol;
- cael copi o'ch data mewn ffurf electronig a ddefnyddir yn gyffredin; a □ gwrthwynebu mathau penodol o brosesu data gennym ni.

Evch i <https://ico.org.uk> am ragor o wybodaeth am yr hawliau uchod. Gallwch hefyd gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data drwy anfon e-bost at [dpo@glyndwr.ac.uk](mailto:dpo@glyndwr.ac.uk) i gael rhagor o wybodaeth.

## TABL 1

Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data dan GDPR y DU

Mae GDPR y DU yn gyfraith newydd ac nid yw wedi'i chymhwyso hyd yma i amgylchiadau tebyg yng nghyd-destun ein perthynas â myfyrwyr. Mae dal gwaith deall y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu data. Mae **Tabl 1** yn cyflwyno safbwynt presennol y Brifysgol ar seiliau prosesu yn erbyn pob pwrpas penodol. Wrth i safbwyntiau cyfreithiol aeddfedu, efallai bydd y Brifysgol yn newid ei safbwynt ar ei sail gyfreithiol ar gyfer prosesu. Pe bai newid yn digwydd, bydd Hysbysiad Preifatrwydd diwygiedig yn cael ei ddrafftio, a byddwch yn cael gwybod.

**(Erthygl 6(1)(a))**, Caniatâd - ar adegau penodol, bydd y Brifysgol ond yn prosesu data penodol os byddwch yn rhoi eich caniatâd e.e. wrth gofrestru, rydych ond angen cyflwyno data "categoriâu arbennig" penodol os ydych yn cytuno i wneud hynny.

**(Erthygl 6 (1)(b))**, angenrheidiol ar gyfer cyflawni eich cytundeb myfyriwr - ar sawl adeg, bydd y Brifysgol yn prosesu eich data er mwyn ei alluogi i fodloni ei ymrwymadau i chi e.e. y rheiny sy'n berthnasol i addysgu ac asesu.

**(Erthygl 6 (1)(c))**, angenrheidiol i gydymffurfio â dyletswydd gyfreithiol - mae gan y Brifysgol ddyletswydd gyfreithiol i ddarparu eich data personol i eraill e.e. HESA.

**(Erthygl 6 (1)(d))**, at ddibenion diogelu budd hanfodol eich hun neu eraill - weithiau, mewn amgylchiadau eithafol, bydd rhaid i'r Brifysgol ddatgelu gwybodaeth i ddiogelu eich buddion neu fuddion pobl eraill e.e. mewn achosion meddygol brys.

**(Erthygl 6 (1)(e))**, prosesu angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg sydd er budd y cyhoedd - mae'r Brifysgol yn sefydliad addysgiadol ac yn benodol, mae ei weithgaredd addysgol yn cael ei gynnal er budd y cyhoedd (gan gynnwys eich budd chi a budd pobl eraill). **(Erthygl 6 (1)(f))**, mae prosesu yn angenrheidiol at ddibenion buddiant dilys y Brifysgol neu drydydd parti yn amodol ar fuddiannau tra phwysig gwrthrych y data - mae gan y Brifysgol (ac weithiau trydydd partiön) fuddiant dilys eang mewn gweithgareddau sy'n cysylltu â gweithgareddau ac addysg myfyrwyr. Ar yr amod nad yw'r buddiannau hynny yn cael eu diystyru gan ddiddordebau neu hawliau a rhyddid sylfaenol y myfyrwyr, bydd yn dilyn y buddiannau hynny. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid yw'r Brifysgol yn gallu defnyddio'r broses gyfreithiol hwn oherwydd ein bod yn awdurdod cyhoeddus, ac ni all awdurdodau cyhoeddus wneud hyn.

**(Erthygl 22(2)(a))**, gwneud penderfyniadau awtomatig sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni cytundeb - bydd y Brifysgol weithiau yn awtomeiddio penderfyniadau sy'n ymwneud â'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig ichi.

**(Erthygl 9(1)(a))**, prosesu data "categoriâu arbennig" lle rydych wedi rhoi caniatâd - bydd y Brifysgol yn prosesu gwybodaeth sensitif benodol amdanoch gyda'ch caniatâd.

**(Erthygl 9(1)(g))**, prosesu data "categoriâu arbennig" pan fo angen hynny am resymau sydd o ddiddordeb sylweddol i'r cyhoedd.

**(Erthygl 9(1)(f))**, prosesu data "categoriâu arbennig" sy'n gysylltiedig â hawliadau cyfreithiol.

<b>Adolygwyd:</b> Ebrill 2022	<b>Awdur:</b> Leonna Messiter	<b>Ychwanegiadau:</b> GDPR wedi'i ddiweddarau i GDPR y DU Camerâu ar y Corff wedi'u cynnwys
----------------------------------	-------------------------------------	---